08.04.21

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Portread o Iolo Williams lle mae celf yn adlewyrchu natur

Mae'r naturiaethwr Iolo Williams wedi dod yn eicon ym myd natur Cymru diolch i'w frwdfrydedd am fywyd gwyllt a'r ffaith ei fod mor naturiol o flaen y camera. Ond pa mor gyffyrddus fydd e wrth wynebu cyfrwng hollol wahanol - sef paent a brwsh?

Yn yr ail raglen o'r gyfres newydd **Cymry ar Gynfas** ar nos Fercher, 21 Ebrill am 9.00, bydd portread o Iolo yn cael ei greu gan yr artist Meinir Mathias, sydd â stiwdio yn Nhalgarreg, Ceredigion.

Bob wythnos, mae **Cymry ar Gynfas** yn dod ag eicon ac artist Cymraeg at ei gilydd i greu portread sy'n adlewyrchu personoliaeth y wynebau cyfarwydd â dull unigryw pob artist.

Ac yn ogystal â'r portread sy'n cael ei ddatgelu ar ddiwedd y rhaglen, mae pob rhaglen yn y gyfres yn cynnig portread gonest ag agored o'r eicon a'r artist wrth iddynt sôn am eu profiadau a'u teimladau o beintio a chael eu peintio.

Mae Meinir yn artist sy'n gweithio gyda'r cyfrwng olew gan amlaf ac yn gwneud gwaith sy'n seiliedig ar hanes, straeon a diwylliant Cymreig yn gyson, ond yn hoff o ddefnyddio patrymau a lliwiau sydd ychydig yn fwy llachar yn ei gwaith hefyd.

"Roedd peintio rhywun doeddwn i ddim yn nabod, person sydd ar y teledu, yn broses hollol wahanol," meddai Meinir. "Dwi'n credu fy mod i'n pori fy hunan i mewn i fy mheintiadau fy hun, maen nhw bach fel hunanbortread a dwi'n rhoi delweddau o fy mywyd fy hun. Ond mae hwn am Iolo ac mae'n tynnu chi mas o'r *comfort zone* yna, hala chi feddwl yn wahanol a rhoi persbectif newydd ar waith."

Mae Iolo a Meinir yn cwrdd mewn lleoliad sy'n agos iawn at galon Iolo, sef rhaeadr Rhiwargor ger Llyn Fyrnwy. Mae'r cwm a'r llwybr i fyny at y pistyll yn llawn atgofion melys o blentyndod Iolo ac mae'n cofio'r tro cyntaf erioed iddo ddod i'r llecyn yma, a oedd yn ysbrydoliaeth iddo fynd i'r maes y mae o'n arbenigo ynddo hyd heddiw.

Roedd dod a Meinir i'r ardal yma ar gychwyn y broses yn holl bwysig i Iolo: "Pob tro pan dwi wedi cael llond bol ar y byd a'i bethau, i fan yma fyddai'n dianc...Oni isio iddi hi weld ardal sydd wedi cael gymaint o effaith arna i. Achos dwi wedi cael yr eneteg gan Fam a Dad ond mae'r cnawd ar y DNA yna yn dod o'r ardal yma."

Mae Meinir, fel rhywun sy'n hoffi natur, adar a cherdded, law yn llaw ag angerdd Iolo am fyd natur yn gwneud y bartneriaeth hon yn un berffaith. Ac mae cyrraedd top y rhaeadr a gweld y golygfeydd godidog yn ei gwmni yn ysbrydoliaeth amlwg i Meinir:

“Roedd gan Iolo lot o egni ac roedd ei weld e’n mynd ar goll yn y tirlun fel plentyn yn chwarae! Roedd o’n mynd mor *excited* am y blodyn lleiaf neu rywbeth oedd o’n gweld yn y goedwig...fi moyn dal yr egni yna.”

Mae’r datgelu’n digwydd dau fis yn ddiweddarach yn Oriel Canfas, Aberteifi. Ydi Meinir wedi llwyddo i ddal egni, ysbryd a rhai o hoff bethau Iolo ac a fydd pwysigrwydd yr ardal hon i’w fywyd i’w weld yn y darn gorffenedig? Peidiwch â methu’r bennod nesaf yng nghyfres newydd o **Cymry ar Gynfas** ar nos Fercher, 21 Ebrill am 9.00 am yr atebion ac i weld y portread gorffenedig.

Yn ystod y gyfres bydd y cerddor a phrif leisydd y band Candelas Osian Huw Williams yn cael ei beintio gan Christine Mills; yr Archdderwydd Myrddin ap Dafydd gan Anthony Evans; y gantores Kizzy Crawford gan Seren Morgan Jones a’r canwr a’r ymgyrchydd dylanwadol Dafydd Iwan gan Wil Rowlands. Mae pennod gyntaf yn y gyfres sef Beti George a Catrin Williams ar gael ar S4C Clic.

**Cymry ar Gynfas**
**Nos Fercher, 21 Ebrill, 9.00.**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Wildflame ar gyfer S4C**

S4C

08.04.21

Sara Maredudd Jones
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 5880 369

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# A portrait of Iolo Williams in which art reflects nature

The naturalist Iolo Williams has become an icon of the world of Welsh nature thanks to his enthusiasm for wildlife and the fact that he's a natural in front of the camera. But how comfortable will he be with a completely different medium – paint and brush?

In the second programme of the new series of **Cymry ar Gynfas** (The Welsh on Canvas) on Wednesday, 21 April at 9.00, a portrait of Iolo will be painted by the artist Meinir Mathias, who has a studio in Talgarreg, Ceredigion.

Every week, **Cymry ar Gynfas** brings together a Welsh icon and artist to create a portrait which reflects the personality of the well-known face and the unique style of each artist.

And as well as revealing the finished portrait at the end of the episode, each programme offers an open and honest portrait of the icon and the artist as they talk about their experiences of painting and being painted.

Meinir is an artist who works mostly in oils and produces work inspired by Welsh history, stories and culture but enjoys using bright colours and patterns in her work too.

"Painting somebody that I didn't know, somebody who is on television, was a completely different Process," said Meinir. "I think I work myself into my paintings, they are a bit like self-portraits and I include images from my own life. But this is about Iolo and it pulls you out of that comfort zone, makes you think differently and gives you a new perspective."

Iolo and Meinir meet in a place that is very close to Iolo's heart, namely Rhiwargor waterfall near Lake Fyrnwy. The valley and the path up to the waterfall is full of wonderful childhood memories for Iolo and he remembers the first time that he went to this place, which inspired him to pursue the field he specialises in today.

Bringing Mair to this area at the beginning of the process was all important to Iolo: "Every time I've had a gutsful of the world and its' trials and tribulations, this is the place I escape to... I wanted her to see the area which has had such an impact on me. I have had the genetics from Mam and Dad but the flesh on this DNA comes from this area."

Meinir, as someone who loves nature, birds and walking along with Iolo's passion for nature makes this a perfect partnership. And reaching the top of the waterfall and seeing the glorious views in his company obviously inspires Meinir.

"Iolo has a lot of energy and seeing him losing himself in the landscape was like watching a child playing. He got so excited about the smallest flower or something that he saw in the woods ... I wanted to capture that energy."

The unveiling happens two months later in Oriel Canfas, Aberteifi. Has Meinir succeeded in capturing the energy and spirit of some of Iolo's favourite things and will the importance of this area to his life be reflected in the finished piece? Don't miss the next episode in **Cymry ar Gynfas** on Wednesday, 21 April at 9.00 for the answers and to see the finished portrait.

During this series musician and lead vocalist of the band Candelas Osian Huw Williams will be painted by Christine Mills; Archdruid Myrddin ap Dafydd by Anthony Evans; singer Kizzy Crawford by Seren Morgan Jones and influential singer and activist Dafydd Iwan by Wil Rowlands. The first in the series with Beti George and Catrin Williams is available on demand on S4C Clic.

**Cymry ar Gynfas**
**Wednesday, 21 April, 9.00**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Wildflame production for S4C**